Gaeaf 2024

# Cyfarchion y Tymor

Cyfeillion Seindorf Beaumaris Band

Ar ddiwedd 2024 gallwn edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus arall i Seindorf Biwmares Band. Llwyddiannau cystadleuaeth ar gyfer y bandiau Hŷn ac Ieuenctid, gyda chodi arian gwych gan bob band - i gyd gyda chefnogaeth ychwanegol gennych chi, Cyfeillion Seindorf Band Biwmares. Fel bob amser, mae ein diolch ni a rhai'r Band yn ddiffuant. Mae eich cyfraniadau mor bwysig ar gyfer y llwyddiant parhaus, felly "Diolch" unwaith eto!

Yn dilyn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi mae gan y Cyfeillion nawr bwyllgor llawn o 8 aelod. Rydym yn gobeithio cynnal digwyddiad neu ddau newydd y flwyddyn nesaf a byddem yn croesawu'n arbennig eich syniadau i gynnig mwy o ddiddordeb i chi, aelodaeth y Cyfeillion. Os oes gennych chi syniadau ar gyfer digwyddiadau y gallech fod â diddordeb ynddynt, ffyrdd newydd y gallwn godi arian i gefnogi'r Band, cysylltwch â ni drwy friendsofbeaumarisband@gmail.com

# Newyddion y bandiau

## Band Iau

Mae ystafell ymarfer y band yn fwrlwm unwaith eto! Bellach mae 30 o aelodau yn y Band Iau sydd yn eitha anhygoel o feddwl eu bod nhw lawr i 6 ar ôl Covid! Dywed yr arweinydd Maggie Williams nad yw wedi cymryd yn hir iddyn nhw deimlo'n rhan o deulu band Biwmares a gwneud ffrindiau newydd. Mae rhan gymdeithasol bandio yr un mor bwysig â chwarae mewn ensemble ac mae gan y Band Iau rai storïwyr a chomedïwyr yn barod! Buont yn chwarae rhaglen ddifyr yn y Cyngerdd Haf ac edrychwn ymlaen at eu perfformiad yn y Cyngerdd Nadolig.



*Biwmares Band Iau*

## Band Canolradd

Mae Maggie Williams hefyd yn arwain y Band Canolradd ac mae hi'n dweud eu bod nhw mor weithgar ac yn dîm gwych o gerddorion. Mae rhai o aelodau'r band hyd yn oed yn rhoi o'u hamser i helpu tiwtora'r plant yn y Band Iau, ac maen nhw'n anhygoel! Bydd y rhan fwyaf o'r aelodau Canolradd yn ymuno â'r Band Ieuenctid ar ôl y Nadolig. Bydd colled ar eu hôl ond rydym yn dymuno'r gorau iddynt i gyd ac yn gwybod y byddant yn mwynhau pob munud gyda'r Band Ieuenctid.

Cymerodd y band canolradd ran yng ngorymdaith Sul y Cofio. Buont hefyd yn chwarae mewn prynhawn Te Mefus yn Neuadd Bentref Llangoed gyda Chôr Ysgol Gynradd Llangoed i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sy'n dod i Ynys Môn yn 2026. Roedd yn brynhawn bendigedig ac yn ddechrau gwych i'r ymgyrch codi arian.

**Digwyddiadau Nadolig - Rhagfyr:**

| | | |
|---|---|---|
| Gwe 6th 7.00 pm | Cyngerdd Nadolig | Canolfan |
| Sad 7th 7.00 pm | Cyngerdd Nadolig | Canolfan |
| LLun 9th 7.30pm | Carolau Gwasanaethau Brys Gyfun | Cadeirian Llanelwy |
| Mer 18th 6.30pm | Goleuadau Coeden | Llandegfan |
| Sul 22nd TBC | Carolau | Porth Amlwch |
| Sul 22nd 5.00pm | Gwasenaeth Carolau Eglyys | Llandegfan |



*Biwmares Band Canolradd*

## Band Ieuenctid

Bu Band Ieuenctid Biwmares yn cystadlu yn adran 'Bandiau Pres Ieuenctid' yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ennill yr 2il safle clodwiw tu ôl i 'Band Ieuenctid De Cymru'.



*Band Ieuenctid yn Gateshead*

Ym mis Tachwedd bu'r Band Ieuenctid yn cystadlu yn Brass In Concert yn Gateshead gyda rhaglen adloniant. Roedd y safon yn anhygoel o uchel gyda llawer o fandiau o'r radd flaenaf yn cystadlu. Er na enillwyd tlysau arian, mae'n werth crynhoi'r profiad gwerthfawr a gafwyd gan y geiriau hyn a ysgrifennwyd yn fuan ar ôl y digwyddiad.

*"Lle ma dechra? Aeth y criw o bobl ifanc yma i gystadleuaeth entertainment i gynrychioli Cymru, a waw, mi naethon nhw wneud hynny gyda balchder, hyder a hwyl, ar y llwyfan, ac yn ystod yr holl daith.*

*Mi oedd treulio penwythnos yn eu cwmni yn bleser i'r holl dîm ac mi oedd pawb a ddaeth ar eu traws yn eu canmol.*

*Mae penwythnosau fel hyn profi mor bwysig ydi cerddoriaeth a'r celfyddydau i'n cymunedau ac i gymdeithas. Mi oedd na gymaint o dalent ar y llwyfan ddoe gan bob un band ieuenctid. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.*



*Defnyddiodd y beirniad y geiriau JOY, PRIDE, PASSION - dyma'n union ddangosodd y criw yma yn eu perfformiad a drwy gydol y penwythnos. Criw o bobl ifanc sy'n gymuned, yn garedig, ac yn FFAN-FFLIPIN-TASTIG!*".



*Llawer o fasau yn Gateshead!*

## Senior Band

Cafwyd perfformiad gwych gan y Band yn y Cyngerdd Haf ac ers hynny mae'r band wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r band ieuenctid gyda'u paratoadau Brass in Concert, gan weithio'n galed i diwtora'r adrannau ac yna bod yn oruchwylwyr penodedig ar y daith.

Yn y cyfamser, mae'r Band Hŷn wedi bod yn datblygu eu rhaglen ar gyfer cyngerdd y Nadolig ac yn dechrau paratoadau ar gyfer 2025 prysur, a fydd yn cynnwys yr Ŵyl, Pencampwriaethau Bandiau Rhanbarthol Cymru yn Abertawe ym mis Mawrth, a'r 'Constest' hynod bleserus yn y Birmingham Conservatoire yn Ebrill.

Mae'n werth nodi bod dros hanner aelodau'r Band Ieuenctid yn chwarae yn y Band Hŷn hefyd, felly mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y llwyth gwaith yn hylaw wrth i'r chwaraewyr ifanc jyglo straen arholiadau a'r ysgol hefyd.

## LSW

Mae band cymdeithasol Biwmares, yr LSW (Last of the Summer Wind) wedi bod yn helpu gyda digwyddiadau fel 'Cawl a Chân' y Cyfeillion eu hunain (a oedd yn noson wych, gyda llaw!) Adloniant bendigedig a chawl hyfryd!) yn ogystal â'u Bingo Nadolig a fu'n llwyddiannus iawn. Buont hefyd yn cynnal cyngerdd ym Marianglas mewn partneriaeth â'r ysgol gynradd leol.

**Cyfeillion Gwefan** www.friendsofbeaumarisband.org.uk

Peidiwch ag anghofio ymweld â gwefan Cyfeillion Seindorf Band Biwmares,
lle byddwch yn dod o hyd i fwy o luniau, y newyddion diweddaraf a dyddiadau dyddiadur.